



ADRODDIAD PLANED FYW 2024

RHIFYN IEUENCTID

GAN BOBL IFANC, I BOBL IFANC





Cydnabyddiaeth

Cyfranwyr Ifanc

Hoffem gydnabod ein cynrychiolwyr ifanc am eu cyfranogiad i'r trafodaethau grŵp ffocws a gynhaliwyd i ddatblygu a dylunio Adroddiad Planed Fyw 2024 – Rhifyn Ieuencid. Roedd ein cyfranwyr ifanc yn cynnwys, Ana, P. G. P (Paragwâi), Aurvi, J (Singapôr), Loaira, T. R. M (Ecwador), Syna, G (Cenia), Roshen, G-N (Maleisia), Angie, V. R. S (Colombia), Sreejith, A. J (India), Siena, R (Y Deyrnas Unedig), Emma, W (Y Deyrnas Unedig), Jasmine, M. L (Sambia), William, L (Y Deyrnas Unedig), Adil, A (Pacistan), Roshan, B. F (Pacistan), Hiba, I (Pacistan), Muhammad, M (Pacistan), Miriam, P (Awstria), Sharon, R (Tansania), Eman, D (Pacistan), Warisha, F (Pacistan), Affan, K (Pacistan), Zainab, W (Pacistan), Alizeh, A (Pacistan), Maryam, B (Pacistan), a Sarah, M (Pacistan).

Awdur a Chyd-awdur: Zarmina Khan (WWF-Pakistan) a Shahgan Hummayoun Butt (WWF-Pakistan)

Dylunio: Human Design Studios (Pacistan)

Sylw Arbennig

Diolch i Syeda Natasha Islam (WWF-Pakistan) am gyd-hwyluso'r trafodaethau grŵp ffocws. Rydym yn ddiolchgar hefyd i Rabia Tahir (WWF-Pakistan), Taseer Ali Mirza (WWF-Pakistan), ac Ahsan Tariq (WWF-Pakistan) am eu rôl gynghori yn dylunio Adroddiad Planed Fyw 2024 – Rhifyn Ieuencid. Diolchwn yn arbennig hefyd i gydweithwyr yn swyddfeydd y rhwydwaith am eu cefnogaeth barhaus.

ADRAN I CYFLWYNIAD I ADRODDIAD PLANED FYW 2024 – RHIFYN IEUENCTID

Yn debyg i'r Adroddiad Planed Fyw, sy'n disgrifio cyflwr bywyd gwyllt ac iechyd y blaned, caiff yr Adroddiad Planed Fyw – Rhifyn Ieuenctid ei gyhoeddi bob yn ail flwyddyn. Mae'r Rhifyn Ieuenctid yn torri i lawr prif negeseuon a ffeithiau gwyddonol y prif Adroddiad Planed Fyw ac yn eu cyflwyno mewn ffordd ddeniadol sy'n briodol i oedran darllenwyr ifanc a gwneuthurwyr newid – fel chi! Bydd yr Adroddiad Planed Fyw 2024 – Rhifyn Ieuenctid yn eich helpu chi i ddeall beth sy'n achosi i iechyd ein planed ddirywio a'r effeithiau mae'n ei gael ar ein hamgylchedd ac ar ein pobl. Hefyd, bydd y Rhifyn Ieuenctid yn cynnig syniadau ac yn eich ysbrydoli chi i ddefnyddio eich llais a thrawsnewid syniadau'n gamau gweithredu. Felly dewch inni edrych ar sut y gallwn ni adfywio ein byd.

Sut ydyn ni'n diffinio "Ieuenctid"

Er bod llawer o ddiffiniadau o Ieuenctid, rydyn ni'n ei ystyried yn bobl ifanc 11-17 oed yn yr achos hwn.

Cipolwg o Adroddiad Planed Fyw 2024 – Rhifyn Ieuenctid: Beth sy'n newydd?

Cafodd yr Adroddiad Planed Fyw 2024 – Rhifyn Ieuenctid ei gyd-greu gan bobl ifanc.

24 
o gyfranwyr ifanc

yn cynrychioli
12 o wledydd a

 **04**
o ranbarthau.



Mae'r cyfranwyr ifanc wedi rhannu eu safbwyntiau, syniadau a straeon cymunedol yn y rhifyn hwn. Maent hefyd wedi awgrymu camau ymarferol gall pobl ifanc, ac oedolion, eu cymryd ar gyfer byd iachach. Mae'r rhifyn hwn yn rhoi gwybodaeth werthfawr ac yn dangos sut gall pob un ohonom gael effaith ystyrlon.



ADRAN II

BETH YW BIOAMRYWIAETH A PHAM EI BOD YN BWYSIG?

Mae'r blaned yn gartref i **8.7 miliwn** o rywogaethau a phlanhigion hysbys ar amcangyfrif¹. Dychmygwch faint yn fwy byddai'r rhif hwn petawn ni'n gallu amcangyfrif nifer y micro-organebau hefyd! Yn frawychus, llai na **25%** o'r rhywogaethau hyn sydd wedi'u disgrifio'n llawn. Mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith bod dal angen llawer o ymdrech i ddeall yr amrywiaeth o fywyd sy'n ffurfio ein planed. Mae "**bioamrywiaeth**" yn cyfeirio at yr amrywiaeth o rywogaethau - gan gynnwys planhigion, anifeiliaid, micro-organebau, a'u cyfansoddiad genetig - sy'n bresennol mewn ecosystem. Mae rhywogaethau'n gweithio mewn cydbwysedd, gan gynnal iechyd ein hecosystemau.

Mae ein byd wedi bodoli ers oddeutu **4.6 miliwn** o flynyddoedd. Ymddangosodd y ffurf gyntaf ar fywyd tua **3.7 biliwn o flynyddoedd** yn ôl. Ers hynny, mae pob ffurf ar fywyd wedi bod yn llunio ein byd. Daw popeth sydd ei angen arnom i oroesi - bwyd, dŵr, aer glân, a'r tymheredd cywir - o natur. Mae hynny'n digwydd oherwydd bod yr holl bethau byw yn gweithio mewn cydbwysedd â'r rhannau difywyd o natur (fel pridd, aer, a dŵr). Mae'r rhyngweithio hwn yn creu ecosystemau sy'n debyg i systemau cefnogaeth y blaned, yn darparu popeth sydd ei angen ar fywyd i oroesi.



Gwasanaethau ecosystem yw'r holl bethau mae'r 'systemau cefnogaeth' hyn yn eu gwneud i bobl ac i'r blaned:

Y Gwasanaethau Ecosystem Gwahanol



GWASANAETHAU DARPARU

Yn cynnwys popeth mae bodau dynol yn ei gael gan natur i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol. Mae'r cynhyrchion hyn yn cynnwys bwyd, dŵr, coed, planhigion meddyginaethol, ac ati.

GWASANAETHAU RHEOLEIDDIO

Y pethau defnyddiol mae natur yn eu gwneud i gadw ein hamgylchedd yn iach ac yn sefydlog. Mae'n cynnwys sefydlogi'r hinsawdd, rheoli afiechydon, a glanhau dŵr. Mae'r gwasanaethau hyn yn helpu i sicrhau bod ein hamgylchoedd yn parhau'n ddiogel a glân.

GWASANAETHAU CEFNOGI

Y gefnogaeth mae natur yn ei darparu ar gyfer prosesau a swyddogaethau naturiol fel ffurfio pridd, ffotosynthesis ac ailgylchu maetholion.

GWASANAETHAU DIWYLLIANNOL

Buddiannau anferol mae pobl yn eu cael gan ecosystemau fel gorffwys ysbrydol a meddyliol, gweithgarwch corfforol, a thwristiaeth trwy fod mewn natur.

Beth yw'r Mynegai Planed Fyw?

Adnodd a ddefnyddir gan arbenigwyr byd-eang i olrhain iechyd ein planed a'i hecosystemau yw'r Mynegai Planed Fyw. Mae'n monitro'r newid ym maint poblogaeth miloedd o rywogaethau fertebraidd (mamaliaid, adar, ymlusgiaid, amffibiaid, a physgod) ac yn helpu arbenigwyr i ddeall beth sy'n achosi newid i dueddiadau poblogaeth (cynnydd a gostyngiad), er mwyn cymryd camau gweithredu angenrheidiol, a datblygu polisiau ar gyfer cadwraeth rhywogaethau a chynefinoedd.

Mae Mynegai Planed Fyw 2024 yn ymwneud â'r cyfnod o 1970 i 2020 ac yn cynnwys data ar **34,836 o boblogaethau** **5,495** o rywogaethau fertebraidd.

Y Mynegai Planed Fyw 2024

Yn fyd-eang, rydym yn rhoi llawer o bwysau ar adnoddau naturiol, yn enwedig bioamrywiaeth.

Mae Mynegai Planed Fyw 2024 yn nodi gostyngiad o **73%** ym maint cymedrol poblogaethau bywyd gwyllt a fonitwyd rhwng **1970 a 2020**.

Adroddir cwmpw sylweddol - **85%** - ym maint poblogaethau rhywogaethau dŵr croyw.²

Mae hyn yn adlewyrchu'r ffordd mae ein gweithredoedd fel gordefnyddio dŵr a llygredd yn cael effaith negyddol ar lynnoedd ac afonydd. Er y cafwyd dirywiadau ym maint rhywogaethau morol a thirol hefyd, maen nhw'n llai cyflym na chynefinoedd eraill, ond yn destun pryder mawr o hyd. Serch hynny, mae'r Mynegai Planed Fyw yn dangos tueddiadau cadarnhaol ar gyfer rhywogaethau penodol a fonitwyd. Er enghraifft, tyfodd poblogaeth y bual Ewropeaidd o **0 i 6,800** rhwng **1950 a 2020**, o ganlyniad i raglenni bridio ar raddfa fawr ac adleoli'r buail i ardaloedd gwarchodedig. Mae hyn yn dangos pan gaiff ymdrechion ar y cyd eu gwneud i warchod ac adfer natur, mae adferiad yn bosibl.

ADRAN III

DEALL COLLI BIOAMRYWIAETH

Mae cydgysylltiadau cymhleth dros ben rhwng ecosystemau ein planed, ond mae gweithredoedd dynol yn rhoi pwysau cynyddol ar y cydbwysedd hwn. Mae'r newidiadau mae bodau dynol wedi'u gwneud i'r blaned eisoes yn cael eu teimlo ym mhob man a byddant yn cael effeithiau hirhoedlog nad oes modd eu gwrthdroi mewn llawer o achosion. O ganlyniad, rydym yn peryglu ein ffyrdd o fyw ac yn rhoi cenedlaethau'r dyfodol dan berygl difrifol.



Ysgogwyr Newid



Colli/Dirywio Cynefin

Mae hyn yn digwydd pan fydd yr ardaloedd lle mae anifeiliaid a phlanhigion yn byw yn cael eu niweidio neu eu dinistrio. Gallai fod oherwydd ffermio, torri coed, adeiladu ffyrdd, tai, neu fwyngloddio. Er enghraifft, pan gaiff fforestydd eu torri lawr, mae llawer o anifeiliaid yn colli eu cartrefi, gan ei wneud yn anoddach iddynt oroesi ac felly mae eu niferoedd yn lleihau.



Gor-ecsbloetio

Mae hyn yn golygu cymryd gormod oddi wrth natur. Mae'n gallu golygu hela anifeiliaid yn gyflymach nag y gallent atgenghedlu, neu bysgota mwy na gall y môr ei ddioddef. Weithiau caiff anifeiliaid eu dal trwy gangymeriad, fel crwbanod môr mewn rhwydi pysgota. Mae hynny'n niweidio'r ecosystem hefyd.



Llygredd

Ystyr llygredd yw pan fydd deunydd niweidiol, fel plastig neu gemegion, yn mynd i natur. Gall wneud yr awyr, dŵr neu bridd yn anaddas i anifeiliaid a phlanhigion goroesi. Er enghraifft, mae gollyngiadau olew yn y môr yn niweidio pysgod, adar, a'r gadwyn fwyd gyfan.



Newid Hinsawdd

Mae ein planed wedi cynhesu'n sylweddol ers i bobl ddechrau defnyddio peiriannau a llosgi tanwydd ffosil (cyfnod o'r enw 'Y Chwyldro Diwydiannol'). Gall hyd yn oed newid fach mewn tymheredd cael effaith fawr ar anifeiliaid, planhigion a bodau dynol. Er enghraifft, mae riffiau cwrel - a elwir weithiau yn 'goedwigoedd glaw tanddwr' - yn sensitif iawn i newidiadau mewn tymheredd. Os yw'r blaned yn cynhesu dim ond 1.5°C, bydd y rhan fwyaf o'r riffiau lliwgar hyn yn marw. Byddai hyn yn broblem anferth gan fod llawer o greaduriaid y môr yn dibynnu ar riffiau cwrel am gartref a bwyd. Dim ond un enghraifft yw hon, ond mae newid hinsawdd eisoes yn cael effaith fawr ar fyfyr naturiol anhygoel ein planed, yn ogystal â'n ffordd o fyw.



Rhywogaethau Goresgynnol

Weithiau caiff anifeiliaid neu blanhigion o un rhan o'r byd eu cyflwyno i ardal arall, yn ddamweiniol neu'n fwriadol. Gall y newydd-ddyfodiaid hyn, a elwir yn rhywogaethau goresgynnol, darfu ar yr ecosystem trwy guro'r gystadleuaeth gyda rhywogaethau brodorol am fwyd neu gynefin, yn aml yn eu gyrru i ffwrdd neu'n achosi iddynt ddirywio.



Afiechydion

Pan fydd rhywogaethau'n symud i ardaloedd newydd, gallent gludo afiechydion nad oeddent yno o'r blaen. Gall bodau dynol lledaenu afiechydion ar draws y byd hefyd. Pan fydd anifeiliaid dan bwysau oherwydd pethau fel newid hinsawdd neu golli cynefin, mae'n haws iddynt fynd yn sâl.

Pwyntiau Tyngedfennol:

Beth ydyn nhw a pham eu bod nhw'n bwysig?

Pwyntiau tyngedfennol yw'r pwyntiau di-droi'n-ôl ar raddfa fawr yn ein brwydr dros y blaned. Dychmygwch chwythu balŵn i fyny - wrth i chi chwythu mae balŵn yn llenwi ac yn cynyddu mewn maint hyd nes ei fod yn byrstio ar ei bwynt tyngedfennol. Mae hyn yn wir am natur hefyd.

Wrth inni barhau i gam-drin ein planed, mae'r niwed yn cronni nes iddo gyrraedd y pwynt di-droi'n-ôl, ac mae'r llinell wedi'i chroesi. Mae rhai enghreifftiau o bwyntiau tyngedfennol yn cynnwys gwynnu cwrel Barrieff Mawr Awstralia, sy'n gwneud cymunedau arfordirol yn fwy agored i niwed gan newid hinsawdd; a cholli mwy na 3.8 biliwn o goed yng nghoedwig pinwydd Gogledd America oherwydd sychder, tân coedwig ac ymlediad chwilod rhisgl pinwydd. Dyma pam mae mor bwysig inni ddeall y pwyntiau tyngedfennol hyn a chymryd camau i'w rhwystro cyn ei bod yn rhy hwyr.

Y newyddion da yw nid oes rhaid i bwyntiau tyngedfennol fod yn negyddol. Gall pwyntiau tyngedfennol cadarnhaol fod yn gyfres ddefnyddiol o ganllawiau i'w dilyn er mwyn creu planed iach a chynaliadwy. I wneud hyn, mae arnom angen newid ein polisiâu cenedlaethol, systemau ynni a systemau bwyd, a hyd yn oed ein diwylliannau. Trwy sicrhau nad ydym yn croesi'r pwyntiau tyngedfennol hyn, gallwn alinio gyda systemau naturiol a chydweithio gyda nhw i yrru newid cadarnhaol.



Sbotolau ar y pwyntiau tyngedfennol o bwys byd-eang

Fforest: Fforest Law yr Amazon

Mae fforest law yr Amazon yn gartref i **10%** o fioamrywiaeth ddaearol (ar y tir) y blaned, **10%** o'r holl rywogaethau pysgod sy'n hysbys, a **47 miliwn o bobl**. Yn un o'r cronfeydd carbon mwyaf, mae'n storio **250 i 300 biliwn o dunelli o garbon**. Mae datgoedwigo a tharfu ar y fforest oherwydd newid defnydd tir yn newid y fforest law o gronfa garbon i allyrrydd carbon. Os cyrhaeddir pwynt tyngedfennol, gallai'r fforest law colli ei gallu i gynnal ei charbon a thrawsnewid i fod yn dirwedd dra ddiraddiadwy gan ryddhau tunelli o garbon deuocsid i'r atmosffer. Byddai hynny'n arwain at lai o lawiad, mwy o dannau coedwig, a cholli rhywogaethau bywyd gwyllt, adnoddau bwyd byd-eang, ac etifeddiaeth ddiwylliannol.

Wyddoch chi?

Gellid cyrraedd pwynt tyngedfennol trwy ddinistrio dim ond **20-25%** o fforest law yr Amazon. Amcangyfrifir bod **14-17%** ohoni wedi cael ei datgoedwigo eisoes – sy'n dangos yr angen am weithredu cydweithredol ar frys i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n gyrru datgoedwigo.

Byd wedi rhewi: Ymdoddiad Llenni Iâ'r Ynys Las a Gorllewin yr Antarctig

Mae'r **crysoffer** yn cynnwys holl rannau ein planed sydd wedi rhewi, fel llenni iâ a rhew parhaol. Pe bai llenni iâ'r **Ynys Las** a **Gorllewin yr Antarctig** yn toddi, gallai lefelau'r môr godi o sawl metr, gan arwain at lifogydd mewn ardaloedd arfordirol ac effeithio ar filiynau o bobl. Yn y cyfamser, mae rhew parhaol sy'n toddi'n rhyddhau nwyddau wedi'u dal megis carbon deuocsid a methan, a allai waethygu cynhesu byd-eang. Gallai'r newidiadau hyn cael effeithiau difrifol, sy'n ei gwneud yn hanfodol inni weithredu nawr i osgoi'r pwyntiau tyngedfennol hyn ac amddiffyn dyfodol ein planed.



Cefnfor: Y cylchrediad dŵr o'r gogledd i'r de (ac yn nôl) yng Nghefnfor Iwerydd

Mae'r **cylchgerrynt is-begynol** yn gerrynt dŵr anferth yn y môr ger yr Ynys Las sy'n helpu i gadw patrymau tywydd lleoedd fel **Ewrop a Gogledd America** yn gyson. Mae'n gysylltiedig â system geryntau gefnforol fwy fyth o'r enw **Cylchrediad Gwrthdroi Cyhyddeddol yr Iwerydd (AMOC)**, sy'n cylchredeg dŵr cynnes rhwng y trofannau ac ardaloedd oerach Cefnfor Iwerydd.

Pe bai'r ceryntau hyn yn arafu neu'n peidio - pwynt tyngedfennol - gallai newidiadau mawr ddigwydd. Gallai Ewrop oeri cryn dipyn yn sydyn iawn, gallai'r ardaloedd trofannol sychu, a gallai lefelau'r môr godi, gan roi dinasoedd arfordirol dan fygythiad. Byddai hyn yn achosi newidiadau difrifol i'r hinsawdd, gan effeithio ar bobl ac ar fywyd gwyllt. Mae'n un o'r pwyntiau tyngedfennol mae gwyddonwyr yn poeni amdano os na weithredwn i warchod yr amgylchedd.

ADRAN IV

CYNLLUN Y BYD AR GYFER PLANED WELL AC IACHACH

Er ein bod ni'n wynebu sefyllfa ddifrifol ac mae heriau mawr yn bodoli, mae'r pŵer gennym i newid cyfeiriad ac adfer y cydbwysedd. Dychmygwch fyd lle mae gan bawb dŵr glân, mae'r hinsawdd yn sefydlog, ac mae natur yn ffynnu gyda'i holl amrywiaeth anhygoel. Dyna'r weledigaeth sydd tu ôl i'r nodau byd-eang a osodwyd gan wledydd ledled y byd. Mae'r nodau hyn yn debyg i gynllun mawr a rennir, i wneud y blaned yn lle gwell i bawb ohonom, nawr ac yn y dyfodol.

Wrth wraidd y cynllun hwn yw **Agenda Datblygu Cynaliadwy 2030** y Cenhedloedd Unedig. Yn syml, ystyr Datblygu Cynaliadwy yw datblygu sy'n diwallu gofynion y presennol, heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.


Mae Agenda Datblygu Cynaliadwy 2030 yn cynnwys un deg saith nod a elwir yn **Nodau Datblygu Cynaliadwy**. Mae'r nodau hyn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â phob problem fawr a wynebir gan ein planed ar hyn o bryd fel tlodi, anghydraddoldeb, addysg wael, newid hinsawdd, colli rhywogaethau a chynefinoedd, ac ati. Felly mae'r agenda yn rhoi map trywydd i lywodraethau ac i fusnesau ac unigolion - i wneud yr ymdrechion cywir er mwyn adeiladu dyfodol tecach a gwell.

Mae **Cytundeb Paris** yn chwarae rôl hanfodol yn y gwaith o fynd i'r afael â newid hinsawdd yn benodol. Wedi'i fabwysiadu yn 2015, mae Cytundeb Paris yn ymrwmo'r gwledydd a lofnododd y cytundeb i wneud ymdrechion i leihau allyriadau carbon byd-eang. Nod y cytundeb yw cyfyngu'r cynnydd yn y tymheredd byd-eang i lai na 2 gradd Celsius yn uwch na'r lefelau cyn-ddiwydiannol, gan geisio ei gadw dan 1.5 gradd. Hyd yma, mae 195 o Bartïon - gwledydd neu flociau (fel yr Undeb Ewropeaidd) - wedi llofnodi'r cytundeb ac aeth rhai ymhellach drwy ymrwmo i fod yn 'garbon niwtral'. Caiff hyn ei gyflawni pan fydd maint yr allyriadau nwyon tŷ gwydr a ryddhawyd i'r atmosffer yn hafal â'r maint a dynnir ohono, gan greu cyfanswm o sero.

Hefyd, er mwyn mynd i'r afael â'r her o ddiogelu bioamrywiaeth gyfoethog ein byd, mae 196 o bartïon wedi cytuno ar gynllun mawr a elwir y **Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang**. Mae'r fframwaith hwn yn cefnogi ymdrechion i ddiogelu rhywogaethau a chynefinoedd naturiol, sy'n hanfodol er mwyn cynnal cydbwysedd ecosystemau ein planed. Un o'i dargedau yw gwarchod 30% o dir, dŵr croyw, a moroedd y byd erbyn 2030. Mae'r fframwaith yn golygu'r un peth i fioamrywiaeth ag y mae Cytundeb Paris yn ei olygu i newid hinsawdd.

Mae cynnydd ar y nodau hyn wedi bod yn arafach nag y gobeithiwyd, ac mae angen daer am weithredu'n gryfach er mwyn bodloni'r targedau hyn ac osgoi goblygiadau amgylcheddol a chymdeithasol difrifol.





DATRYSIADAU CYNALIADWY

Datrysiadau cynaliadwy yw'r camau gweithredu doeth a all datrys problemau amgylcheddol heb achosi niwed i bobl a'r blaned. Gydag effeithiau colli bioamrywiaeth a newid hinsawdd yn cryfhau bob eiliad, mae mabwysiadu datrysiadau cynaliadwy wedi dod yn bwysicach nag erioed. Mae hyn yn hanfodol er mwyn parhau i alinio ein camau gweithredu ag agenda byd-eang 2030 ar gyfer datblygu cynaliadwy.

Gwyddom bellach fod y blaned yn wynebu heriau difrifol, fel newid hinsawdd, datgoedwigo, a cholli amrywiaeth werthfawr o fywyd. Mae fel petai'r byd yn galw am gymorth oherwydd y ffordd rydyn ni wedi bod yn ei thrin. Ond beth sy'n wych yw y gall natur ei hun fod yn gyfaill inni wrth ddatrys y problemau hyn! Dyma ble mae "atebion ar sail natur" yn dod i'r amlwg. Nid yn unig mae'r dulliau hyn yn helpu i adfer y byd a'i amddiffyn - maen nhw hefyd yn ein diogelu ni yn y broses. Er enghraifft, er mwyn helpu i frwydro yn erbyn newid hinsawdd, gallwn amddiffyn ac adfer fforestydd, sy'n amsugno carbon niweidiol o'r atmosffer. Yn poeni am lifogydd? Mae afonydd a thiroedd gwlyb yn gweithredu fel sbyngau naturiol gan amsugno dŵr gormodol, a gall mangrofau ffurfio amddiffynfeydd naturiol yn erbyn llifogydd. Serch hynny, er bod atebion ar sail natur yn bwerus, mae'n bwysig cofio nad ydynt yn ddigon ar eu pennau eu hunain. Rhaid inni hefyd ailystyried ein harferion defnyddio, trawsnewid ein prosesau cynhyrchu bwyd ac ynni, a gwneud newidiadau sylweddol i arferion busnes a llywodraethu er mwyn diogelu'n wirioneddol y bobl a'r blaned.

Rhaid inni wneud newidiadau mawr i adfer y niwed rydyn ni wedi ei wneud eisoes. Rhaid inni newid ein ffordd o fyw a sut mae busnesau'n gweithredu.

Mae'n golygu trawsnewid ein ffyrdd o fyw i adeiladu dyfodol gwell. Ond sut ellir cyflawni hyn? Wel, mae yna ddulliau a allai fod o gymorth:

CADWRAETH GYNHWYSOL

Mae'n golygu sicrhau bod pawb yn cymryd rhan yn y gwaith o **amddiffyn ein planed**, yn enwedig y bobl sy'n cael eu gadael allan yn aml. Mae'r rhain yn cynnwys pobl ifanc, menywod, pobl frodorol, a chymunedau lleol. Mae'n ymwneud â **gweithio gyda'n gilydd** i warchod adnoddau naturiol y byd.

Beth sydd ei angen?

Gwrando ar ddoethineb a phrofiadau cymunedau lleol a **chynnwys safbwyntiau gwahanol** i greu datrysiadau gwell.

CYNHYRCHU BWYD CYNALIADWY

Mae'r system bwyd yn cynnwys yr holl gamau a gymerwyd gan fwyd i'ch cyrraedd chi, gan ddechrau o blannu haden. Ar hyn o bryd, mae ein system fwyd fyd-eang yn gyfrifol am **70% o'r dŵr a ddefnyddir a 27% o'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan roi 86% o rywogaethau** dan fygythiad difodiant. Ni allwn gyflawni dyfodol cynaliadwy heb newidiadau mawr cadarnhaol i'r ffordd mae ein system bwyd yn gweithio.

Beth sydd ei angen?

Newidiadau i benderfyniadau dietegol, lleihau gwastraff a cholli bwyd, taliadau teg a chymorth i ffermwyr, a mabwysiadu arferion amaethyddol sy'n ystyrlon o'r amgylchedd fel defnyddio gwrtaith a dulliau naturiol o ddifa plâu.

Wyddoch chi?

Amcangyfrifir na chaiff **30-40% o'r holl fwyd a gynhyrchir ei fwyta**.

DEWIS YNNI GWYRDD

Y sector ynni yw un o brif ysgogwyr newid hinsawdd. Mae llosgi tanwyddau ffosil yn gyfrifol am **70% o'r allyriadau nwyon tŷ gwydr yn fyd-eang**. Mae hyn yn arwain at dymereddau uwch ac mae'n cynyddu llygredd dan do. Drwy newid i ddefnyddio ffynonellau cynhyrchu ynni gwahanol neu adnewyddadwy fel **solar a gwynt**, gallwn arafu'r broses o gynhesu ein planed.

Beth sydd ei hangen?

Mwy o fuddsoddiad, adeiladu a mynediad i ddatrysiadau ynni adnewyddadwy.

CREU ECONOMI WERDD

Symud cyllid i ffwrdd o arferion sy'n **niweidiol i'r amgylchedd** (fel cloddio am lo, olew a nwy) i arferion adferol sy'n ystyriol o'r amgylchedd, fel **ynni adnewyddadwy, ail-goedwigo tir a chefnogi arferion ffermio** sy'n helpu i adfer cydbwysedd iach y pridd.



ADRAN V

GWEITHREDU DROS EIN PLANED: NAWR YW EIN HAMSER NI

Pam ddylai pobl ifanc cymryd rhan mewn ymdrechion cadwraeth?

Mae oddeutu **11.5%** o boblogaeth y byd yn bobl ifanc rhwng 11 a 17 oed.³ Er nad ein cenhedlaeth ni a achosodd yr heriau mae ein planed yn eu hwynebu heddiw, byddwn yn teimlo'r effeithiau a gallwn chwarae rôl yn mynd i'r afael â newid hinsawdd a cholli natur. Er mwyn canolbwyntio ein hymdrechion ar adeiladu planed fwy iach, rhaid inni fod yn addysgedig a gwybodus, oherwydd cyn bo hir ni fydd yn gwneud y penderfyniadau am ddyfodol sy'n agosáu'n gyflym.

Mae'r rhan a chwaraewn mewn ymdrechion cadwraeth yn allweddol i ddyfodol cynaliadwy oherwydd bod gennym safbwyntiau unigryw a syniadau dyfeisgar i fynd i'r afael â'r heriau a wynebw'n. Pan fyddwn yn wynebu problemau, rydym yn lleisio ein barn ac yn cefnogi newid, boed hynny yn ein harferion, ein cartrefi, neu bolisiau llywodraeth. Mae'n rhaid inni ddeall cyflwr presennol ein hamgylchedd a beth a allai ddigwydd yn y dyfodol er mwyn inni ddysgu gwersi o'r gorffennol a gweithio gyda phob cenhedlaeth er mwyn adfywio ein byd.

Deall safbwyntiau pobl ifanc

Fel rhan o waith creu'r Rhifyn Ieuencid, siaradasom â phobl ifanc ar draws y byd ynghylch eu teimladau am newid hinsawdd a'r effaith a gaiff arny'n nhw. Nododd llawer ohonynt deimladau o ofn, pryder ac euogrwydd - gyda rhai'n dweud eu bod nhw'n byw gyda gorbryder am yr amgylchedd. Yn ôl Cronfa Ryngwladol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Plant (UNICEF), caiff addysg 40 miliwn o blant ei heffeithio bob blwyddyn oherwydd trychinebau'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Rhannodd dau o'n cyfranogwyr ifanc eu teimladau am effeithiau newid hinsawdd:

"Fel gwyliwr adar, dwi'n tristau o weld effeithiau newid hinsawdd. Mae gwyllo poblogaethau adar ac anifeiliaid yn dirywio'n gyflym a theimlo'n ddi-rym yn effeithio ar fy iechyd meddwl"

Sreejith/15/ India



"Dwi'n orbryderus ac yn pryderu am ddyfodol ein planed a'n rhywogaethau. Yn lle dod at ein gilydd i frwydro yn erbyn newid hinsawdd, rydym wedi ein gwahanu'n druenus gan wrthdaro, sy'n ein rhwystro ni rhag mynd i'r afael a'r argyfwng brys hwn."

William/16/Y Deyrnas Unedig



POBL IFANC YN DWEUD EU DWEUD AM AGENDA BYD-EANG 2030

Mae'r llwybr at Agenda Datblygu Cynaliadwy 2030 yn bwysig i adeiladu dyfodol cynaliadwy. Gwnaethom estyn allan i'n cyfranwyr ifanc er mwyn deall meddyliau pobl ifanc am gyflwr y blaned erbyn 2030. Rhannon nhw eu gweledigaeth a'r camau mae'n rhaid eu cymryd i gyflawni'r genhadaeth honno. Mae'r weledigaeth am ddyfodol gwell - o safbwynt pobl ifanc - yn ein hatgoffa ni y bydd y camau gweithredu a gymerwn heddiw yn llunio'r dyfodol. Felly rhaid i ni weithredu a brwydro yn erbyn newid hinsawdd a cholli natur er mwyn diogelu ein dyfodol ni a chenedlaethau'r dyfodol.

GWELEDIGAETH BOBL IFANC AR GYFER PLANED GYNALIADWY ERBYN 2030



“Erbyn 2030, dwi'n gobeithio gyda'n gilydd, byddwn ni wedi llwyddo i **ddiogelu ardaloedd naturiol** a dad-ddofi rhannau o dir a adeiladwyd arnynt eisoes. Dwi'n dychmygu byd sy'n trawsnewid yn gyflym, neu sydd eisoes yn **garbon niwtral** er mwyn lliniaru cynhesu byd-eang, a bod cymdeithasau'n addasu i fod yn fwy cynaliadwy, yn defnyddio ynni adnewyddadwy ac yn newid eu harferion dietegol i gael **effaith fwy cynaliadwy.**”

Emma/15/Y Deyrnas Unedig

“Dwi'n dychmygu dyfodol lle na fydd unrhyw **allyriadau carbon** ar ein planed, a bydd natur wedi'i **hadfer** i'w chyflwr gwreiddiol. Dwi'n obeithiol y bydd gwelliannau technolegol yn cael effaith gadarnhaol ar y byd naturiol. Fodd bynnag, dwi'n poeni'n fawr am gyflwr presennol y byd ac yn ofni os na **weithredwn ni'n syth**, byddwn yn colli ein cysylltiad â natur yn gyfan gwbl.”

Syna/14/Kenya

“Does dim ots os mai'r pethau bychain a wnewch. Cyn belled â'ch bod yn **gwneud ymdrech** ac yn trio eich gorau, mae'n cyfri! Dwi'n dychmygu gwledydd yn gwneud cynnydd ar eu **llwybrau i ddyfodol diwastraff**. Dwi'n dychmygu byd lle bydd pawb ohonom yn dod ynghyd, waeth beth yw ein gwahaniaethau, i **weithio gyda'n gilydd** er lles pawb.”

Aurvi/12/Singapore

“Dwi'n dychmygu planed fyw fel un wyrddach, gyda phobl yn byw mewn heddwch â natur ac yn ei pharchu fel eu prif flaenoriaeth oherwydd eu bod wedi deall mai natur yw'r peth pwysicach **sydd arnynt eu hangen i oroesi**. Dwi hefyd yn meddwl y gallwn ni **adfer ein planed** i gyflwr iachach gydag arferion da.”

Loaira/13/Ecuador

Sut mae pobl ifanc yn defnyddio eu lleisiau ac yn gweithredu dros newid? Ewch i fyd pobl ifanc sy'n wneuthurwyr newid!

Fel pobl ifanc, rydym yn ymwybodol o faterion a gafodd eu hesgeuluso'n aml, gan gynnwys anghyfiawnder a newid hinsawdd. Rydym yn fwy gwybodus ac mae gennym yr adnoddau a'r wybodaeth i yrru newid o unrhyw le, boed hynny o'n cartrefi, neu mewn cymunedau ar draws y byd.

Rydym yn sicrhau y caiff ein lleisiau eu clywed, o fudiadau lleol i gynrychiolaeth mewn fforymau cenedlaethol. Mae ein gweithredu'n arwain at newidiadau i bolisiau, yn cynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y broses o wneud penderfyniadau, ac yn newid agweddau cymdeithasol tuag atom. Rydym yn symblu pobl o'r un anian i ledaenu ymwybyddiaeth ynghylch nifer o faterion ac i arwain mudiadau er mwyn datgan i'r awdurdodau'r newidiadau a ddymunwn eu cyflawni.

"Sefydlwr Sefydliad Sharon Ringo ydw i, sy'n arwain ymdrech ail-goedwigo anferth yn Nwyrain Affrica, gyda'r nod o blannu 10 miliwn o goed. Hyd yma, mae'r Sefydliad wedi plannu dros 53,500 o goed yn Tanzania. Rwyf hefyd yn codi ymwybyddiaeth am newid hinsawdd, cyfiawnder amgylcheddol, a thwristiaeth gynaliadwy drwy fy llyfrau "The Big Five" a "My Voice to the World", sy'n gasgliad o 100 o fy anerchiadau gorau a draddodwyd ar blatfformau rhyngwladol fel Cynulliad Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig a COP27. Fy neges i bobl ifanc yw, chi yw arweinwyr y dyfodol, a bydd y penderfyniadau a wnewch chi heddiw yn siapio'r byd y byddwn ni'n byw ynddo yfory."

- Sharon, Tanzania.

Gan ddyfynnu enghraifft arall,

"Pan oeddwn yn 16 oed, ymunais â Thim Ieuenctid Rhyngwladol prosiect Eat4Change WWF, rhaglen sydd â'r nod o ymgysylltu â dinasyddion ynghylch diet cynaliadwy a'i heffeithiau ar lesiant amgylcheddol a chymdeithasol. Ers hynny, rydw i wedi bod yn codi ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc ac oedolion, am ddietau cynaliadwy er mwyn ceisio lleihau gwastraff bwyd, hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw, ac adeiladu planed well"

Miriam, Awstria.

Gweithredwn mewn llawer o ffyrdd, o newid ein harferion a phrotestio'n gyfreithlon ar y stryd, i ddatblygu datrysiadau er mwyn mynd i'r afael â'r heriau rydyn ni'n codi ein lleisiau amdanynt. Rydym yn arloesol ac yn ddyfalbarhaus, yn dod o hyd i ffyrdd o ddatrys problemau, er gwaethaf yr anhawster. Er enghraifft, mae pobl ifanc yn cymryd rhan yn y gwaith o adeiladu eu hegin fusnesau eu hunain gyda'r genhadaeth o gyflwyno cynnyrch a gwasanaethau cynaliadwy yn y farchnad. Gall hyn datrys cymaint o broblemau cymhleth, fel gwella mynediad i addysg o ansawdd a datblygu datrysiadau ynni adnewyddadwy.

"Gall camau gweithredu bach cael effaith fawr! Dechreuais weithredu dros yr hinsawdd yn 7 oed. Gwelais ddatgoedwigo a cholli natur yn fy nghymuned, a oedd yn destun pryder imi, gan arwain at y syniad o ddechrau Earth Warriorz, menter sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth am newid hinsawdd. Mae'n blatfform addysg hinsawdd ar-lein i blant dan 16 oed sy'n eu dysgu nhw am achosion, effeithiau, a'r rôl y gallent ei chwarae yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd. Mae'r straeon ar gael mewn nifer o wahanol ieithoedd ar y platfform."

- Eman, Pakistan.

Trwy archwilio ein potensial ein hunain yn fanwl, does dim diwedd arno. Rydym o bwys – ac rydym wedi dangos i'r byd pa mor bwerus ydym ni.

BETH ALLWCH CHI EI WNEUD DROS Y BLANED?



EICH ARFERION PERSONOL YW'R MAN CYCHWYN

Gall newid ein ffordd o fyw cael effaith enfawr ar ein planed. O fabwysiadu arferion ecogyfeillgar, gallwch helpu i ysgafnhau'r baich ar ein hadnoddau naturiol. Mae adnoddau naturiol eisoes wedi'u cyfyngu oherwydd ein bod ni'n defnyddio mwy na gall natur ei ailgyflenwi. Dyna pam mae'n rhaid inni edrych yn fwy manwl ar ein harferion a gweld sut allwn ni eu gwella ar gyfer dyfodol iachach. Dyma rhai arferion y gallwch chi eu mabwysiadu, ac annog eraill i'w dilyn (mae'n siŵr y byddwch chi'n gyfarwydd â rhai ohonynt, ond mae'n beth da i'w cadw mewn cof):

- Diffoddwch oleuadau diangen a datgysylltu plygiau ar ddyfeisiau electronig pan na fyddwch yn eu defnyddio.
- Diffoddwch y dŵr pan na fyddwch yn ei defnyddio a gofyn i warcheidwad drwsio unrhyw ollyngiadau.
- Ailddefnyddiwch eitemau cymaint â phosibl, a defnyddio siopau ail-law lle bo'n bosibl.
- Ystyriwch newid beth rydyn ni'n ei fwyta, er enghraifft mwy o brydau'n seiliedig ar blanhigion a bwyta'n dymhorol.
- Pan fyddwch yn teithio, parchwch yr amgylchedd lleol a bywyd gwyllt.
- Osgowch ollwng sbwriel a lleihau'r defnydd o blastigau un-tro cymaint â phosibl.
- Anogwch bobl i ddefnyddio bwyd dros ben i greu seigiau newydd neu ei gompostio i roi maetholion i'r pridd.



HYRWYDDO ARFERION GWYRDD YN YR YSGOL

Mae ysgolion yn rhoi cyfle i bobl ifanc rhyngweithio â grŵp mawr o bobl o wahanol oeddrannau, cefndiroedd teuluol, a statws cymdeithasol. Felly gall yr ysgol fod yn sefydliad pwerus i ledaenu'r gair ac i helpu pobl ifanc, ac oedolion, fabwysiadu arferion sy'n ystyriol o'r amgylchedd. Mae'r pethau y gallwch chi roi cynnig arnynt mewn ysgolion er mwyn bod yn wneuthurwr newid yn cynnwys:

- Chwiliwch am glwb amgylcheddol, ymunwch, a chymerwch ran yn ei weithgareddau. Rhag ofn na ddewch chi o hyd i glwb, siaradwch â'ch athro dosbarth i ddysgu am y broses o sefydlu clwb amgylcheddol.
- Os oes gan eich ysgol finiau ailgylchu, sicrhewch fod y gwastraff yn cael ei waredu'n gywir. Os welwch chi rywun yn defnyddio'r biniau yn anghywir (er enghraifft yn taflu bwyd dros ben i'r bin ar gyfer plastigau), addysgwch nhw.
- Mynnwch ganiatâd gan eich ysgol i ddangos posteri yn yr ysgol sy'n addysgu disgyblion a staff yr ysgol am bynciau amgylcheddol gwahanol, fel cadwraeth dŵr, effeithiau plastig ar yr amgylchedd ac iechyd, buddion diogelu mannau gwyrdd/gerddi ysgol, ac ati.
- Siaradwch ag athro am sefydlu gardd ysgol i dyfu bwyd.
- Creu ardal sy'n ystyriol o fywyd gwyllt, sy'n annog mwy o fywyd gwyllt i ffynnu.

- Plannu mwy o goed, perthi, a blodau: gofynnwch i'ch athro gynnal rhai gwersi tu allan yn hytrach nag aros yn yr ystafell ddosbarth.
- Dewch â natur i'ch ystafell ddosbarth gydag arddangosfeydd celf a ysbrydolwyd gan natur neu tyfwch fwy o blanhigion dan do.

fod gennych ganiatâd a chefnogaeth eich rhiant/gwarcheidwad i wneud hyn yn ddiogel.

- Rhowch eich cynllun ar waith – gyda thrywydd ffordd glir a chyfrifoldebau wedi'u nodi yn y cynllun gweithredu, rhowch eich cynllun ar waith, a monitrwch ei gynnydd yn erbyn yr hyn a gynlluniwyd gennych.

ARWAIN Y Ffordd! ADDYSGWCH EICH CYMUNED

Dyw hi byth yn rhy hwyr i adeiladu eich gardd gymunedol eich hun neu i ddechrau compostio ar lefel gymunedol. Pan fyddwch chi'n gwybod pa broblem amgylcheddol yr hoffwch chi roi sylw iddo, gallwch ddechrau prosiect eich hun (gyda chefnogaeth eich gwarcheidwad cyfreithiol). Dilynwch y camau canlynol:

- Nodwch yr her amgylcheddol yr hoffwch chi roi sylw iddo (sbwriel, gwastraff bwyd, ac ati).
- I ddeall achos yr her, casglwch wybodaeth drwy gynnal cyfweiliadau neu grwpiau ffocws (ar lefel gymunedol). Dechreuwch yn fach a cheisiwch gymorth gan holl aelodau eich teulu a'ch ffrindiau. Sicrhewch fod gennych ganiatâd a chefnogaeth eich rhiant/gwarcheidwad i wneud hyn yn ddiogel.
- Ar sail eich darganfyddiadau, addysgwch y gymuned leol am achosion yr her amgylcheddol mae'n ei hwynebu, a meddylwch am syniadau er mwyn dod o hyd i ddatrysiadau.
- Cofnodwch yr holl ddatrysiadau a thynnu sylw at y rhai a gynigiwyd gan y mwyafrif.
- Cysylltwch â'r bobl a all eich helpu chi i ddatblygu cynllun gweithredu gan ddiffinio'r adnoddau a fydd eu hangen arnoch, ynghyd â'r cyfrifoldebau, amserlenni, gweithgareddau, a cherrig milltir. Sicrhewch

DEFNYDDIO PŴER Y CYFRYNGAU DIGIDOL

Gall defnyddio'r cyfryngau digidol helpu i'ch effaith chi wneud gwahaniaeth. Gyda chymorth eich gwarcheidwad cyfreithiol, cofrestrwch am gyrsiau neu weminarau di-dâl ar-lein sy'n eich helpu chi i gael mwy o wybodaeth am faterion amgylcheddol ac yn eich cyflwyno chi i'r adnoddau sy'n eich helpu chi i ddatblygu datrysiadau ar gyfer y problemau a nodwyd.

Yn ogystal, gallwch godi eich llais dros newid a chodi ymwybyddiaeth drwy greu fideos, neu bosteri gydag ymagwedd "i'r gad!" a rhannu'r gwaith gwych a wnaethoch. Postiwch y cynnwys ar blatfformau eich gwarcheidwad ar y cyfryngau cymdeithasol (neu eich rhai chi, os oes rhai gennych a'ch bod yn ddigon hen i'w cael yn eich gwlad chi) a gofynnwch iddynt eich cefnogi chi yn eich achos.

ADNODDAU ADDYSGIADOL

“There can be no greater legacy than giving young people the tools they need to save our planet”.

-Syr David Attenborough

Yn barod i wneud gwahaniaeth? Archwiliwch yr adnoddau isod i ddysgu mwy am newid hinsawdd a bioamrywiaeth!

Addysgwch eich hun	Earth Hour	https://wwf.org.nz/earth-hour
	Ymarfer Ffordd Werdd o Fyw	https://wwf.panda.org/act/live_green/
	Deall Newid Hinsawdd	https://wwfadapt.org/
	Bywyd Gwyllt a Newid Hinsawdd	https://wwfadapt.org/
	5 Ffordd o Helpu ein Llesiant trwy Natur	https://tinyurl.com/wwfwellbeing
	Agenda Datblygu Cynaliadwy 2030	https://tinyurl.com/AgendaSDGs
	Nodau Datblygu Cynaliadwy	https://www.un.org/sustainabledevelopment/sustainable-development-goals/
	Cytundeb Paris	https://tinyurl.com/ParisAgreement15
	Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-Eang	https://www.cbd.int/gbf
Offer i'w harchwilio	Glôb Archwiliadwy	https://www.ourplanet.com/en/explorable-globe/
	Creu diet cynaliadwy eich hun	https://planetbaseddiets.panda.org/impacts-action-calculator
	Darganfod Eich Anifail Mewnol	https://www.worldwildlife.org/pages/fyia
	Mesur eich ôl-troed personol	https://www.footprintcalculator.org/home/en
	Our Planet Lab	https://tinyurl.com/ourplanetlab
	Teithio'n Well	https://travelbetter.panda.org/
	Seek by iNaturalist	https://www.inaturalist.org/pages/seek_app
Tynnwch ysbrydoliaeth	Biodiversity and Lifestyles Guidebook	https://www.cbd.int/cepa/doc/youthxchange.pdf
	How to Become a Climate Hero	https://tinyurl.com/wwfclimatehero
	Youth and the Environment	https://tinyurl.com/youth-and-environment

CYFEIRIADAU:

1. Hannah Ritchie (2022) How many species are there?
<https://ourworldindata.org/how-many-species-are-there>
2. Living Planet Report 2024, WWF a phartneriaid.
3. World Population Prospects 2024, Cenhedloedd Unedig, Isadran Poblogaethau





Working to sustain the natural
world for the benefit of people
and wildlife.

together possible™

panda.org

© 2024

© 1986 Panda symbol WWF –World Wide Fund for Nature
(Formerly World Wildlife Fund)® “WWF” is a WWF Registered
Trademark.

WWF, Rue Mauverney 28, 1196 Gland, Switzerland.
Tel. +41 22 364 9111.
Fax. +41 22 364 0332.

For contact details and further information, please visit our
international website at livingplanet.panda.org.